Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Rhieni Unigol

04 Ebrill 2014

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Mawrth, pan wnaethoch ofyn am:

1. *Y sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd Sandy Mewies i'r Bwrdd Taliadau yn ystod y 6 mlynedd diwethaf i gefnogi'r 25% o fenywod sy'n rhieni unigol pan neu os cânt eu hethol.*
2. *Unrhyw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer unrhyw benderfyniad i beidio â chodi materion sy'n ymwneud â rhieni unigol.*
3. *Manylion holl drafodaethau'r Comisiynwyr o ran ystyriaethau polisi y Comisiwn ar gyfer rhieni unigol.*
4. *Unrhyw gamau a gymerwyd gan y Comisiwn i annog rhieni unigol i weithio i'r Comisiwn.*
5. *Unrhyw gamau a gymerwyd gan y Comisiwn i annog rhieni unigol i sefyll yn etholiadau'r Cynulliad.*
6. *Nifer y rhieni unigol sy'n gweithio i'r Comisiwn yng Nghaerdydd ac yng Ngogledd Cymru fel canran o'r holl weithwyr.*
7. *Unrhyw bolisïau sydd gennych ar waith yn y Comisiwn i gynorthwyo rhieni unigol.*

Fel pwynt cyffredinol, y Bwrdd Taliadau annibynnol, a sefydlwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mesur Taliadau 2010, ac nid Comisiwn y Cynulliad, sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau teg a phriodol i gyflawni eu swyddi.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost / Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

1. *Y sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd Sandy Mewies i'r Bwrdd Taliadau yn ystod y 6 mlynedd diwethaf i gefnogi'r 25% o fenywod sy'n rhieni unigol pan neu os cânt eu hethol.*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am sylwadau a wnaed i'r Bwrdd Taliadau mewn perthynas â rhieni unigol.

2. *Unrhyw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer unrhyw benderfyniad i beidio â chodi materion sy'n ymwneud â rhieni unigol.*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth ynghylch unrhyw benderfyniad i beidio â chodi materion sy'n ymwneud â rhieni unigol. O ganlyniad i hynny, nid oes gennym unrhyw wybodaeth am asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer penderfyniadau o'r fath.

3. *Manylion holl drafodaethau'r Comisiynwyr o ran ystyriaethau polisi y Comisiwn ar gyfer rhieni unigol.*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am drafodaethau'r Comisiynwyr o ran ystyriaethau polisi ar gyfer rhieni unigol.

Fodd bynnag, mae Cynllun Cydraddoldeb 2012-16 Comisiwn y Cynulliad yn nodi amcanion y Comisiwn mewn nifer o feysydd, gan gynnwys datblygu Comisiwn y Cynulliad ymhellach fel cyflogwr cyfle cyfartal.

Mae'r cynllun ar gael yma:

http://www.assemblywales.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/equalities.htm

Mae cofnodion y cyfarfod pan dderbyniwyd y cynllun ar gael yma:

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieListDocuments.aspx?CId=258&MId=611&Ver=4

Mae Adroddiadau Cydraddoldeb blynyddol ar y cynnydd o ran cyflawni a hyrwyddo amcanion cydraddoldeb y Comisiwn hefyd ar gael ar y wefan a gellir eu gweld yma:

http://www.assemblywales.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/equalities.htm

4. *Unrhyw gamau a gymerwyd gan y Comisiwn i annog rhieni unigol i weithio i'r Comisiwn.*

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru nifer o drefniadau ar gyfer helpu i gefnogi rhieni a'u hannog i weithio i'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad ar y rhestr o'r 20 cyflogwyr gorau ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio.

Er bod gennym gyfres o bolisïau cyfeillgar i deuluoedd ar waith sydd wedi'u cynllunio i gefnogi rhieni ym mhob sefyllfa, nid oes polisïau sy'n cyfeirio'n benodol at rieni unigol.

5. *Unrhyw gamau a gymerwyd gan y Comisiwn i annog rhieni unigol i sefyll yn etholiadau'r Cynulliad.*

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yr unig bwerau sydd gan y Cynulliad mewn perthynas â'r etholiadau yw: '*The Assembly Commission may promote public awareness of –*

a) *The current or any pending system for the election of Assembly members, and*
b) *The current or any pending system of devolved government in Wales.'*

Dyletswydd y Bwrdd Taliadau, fel y nodwyd yn Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, yw sicrhau *'nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad'.* Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn llunio ei gynigion ar gyfer y Pumed Cynulliad.

6. *Nifer y rhieni unigol sy'n gweithio i'r Comisiwn yng Nghaerdydd ac yng Ngogledd Cymru fel canran o'r holl weithwyr.*

Er ein bod yn gwahodd staff i ddarparu data cydraddoldeb, er enghraifft ynghylch anabledd, ethnigrwydd ac ati, nid oes gennym wybodaeth benodol ar rieni unigol.

7. *Unrhyw bolisïau sydd gennych ar waith yn y Comisiwn i gynorthwyo rhieni unigol.*

Fel y nodwyd uchod yng nghwestiwn pedwar, er bod gennym gyfres o bolisïau cyfeillgar i deuluoedd ar waith sydd wedi'u cynllunio i gefnogi rhieni ym mhob sefyllfa, nid oes polisïau sy'n cyfeirio'n benodol at rieni unigol.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF